**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwella Gwasanaethau, Adfywio a Chyllid

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mawrth, 14 Tachwedd 2023 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C A Holley (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P M Black | C M J Evans | E W Fitzgerald |
| D H Jenkins | M H Jones | M Jones |
| S M Jones | J W Jones | W G Thomas |
| M S Tribe | T M White | |

**Aelod(au) Cabinet**

| | |
|---|---|
| Y Cyn. Rob Stewart | Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth |
| Y Cyn. Robert Francis-Davies | Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio, Digwyddiadau a Thwristiaeth |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Ben Smith | Cyfarwyddwr Cyllid / Swyddog Adran 151 |
| Debbie Smith | Dirprwy Swyddog Cyfreithiol |
| Phil Holmes | Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas |
| Lee Richards | Arweinydd Tîm Canol y Ddinas |
| Rachel Percival | Swyddog Craffu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): P R Hood-Williams, M W Locke a/ac B J Rowlands

---

## 28 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Nid oedd unrhyw ddatgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

## 29 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau

Dim.

## 30 Cofnodion

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol.

## 31 Monitro Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf - Chwarter 1af 2023/24

Roedd y Cynghorydd Rob Stewart, Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth a Ben Smith, y Cyfarwyddwr Cyllid a Swyddog Adran 151 yn bresennol i roi trosolwg a oedd wedi arwain at drafodaeth a chwestiynau am y canlynol.

- Ar 19 Hydref, cymeradwyodd y Cabinet yr argymhelliad i atgyfnerthu'r angen i holl gyfarwyddwyr gwasanaeth gyfyngu ar eu gwario eleni.
- Mae Ch1 yn dangos gorwariant a chaiff camau gweithredu pellach eu cadarnhau yn ystod y chwarterau sydd i ddod.
- Mae llawer o adrodd wedi bod am bwysau ariannol mewn cynghorau eraill. Mae risgiau'n cynyddu ar gyfer y llywodraeth leol gyfan.
- Penderfynwyd ar £6m ar gyfer y cyfraniad a gyllidebwyd o'r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer 2023/24 fel y nodir yn adroddiad y gyllideb a gymeradwywyd gan y cyngor ym mis Mawrth 2023. Disgwylir i'r Gronfa Wrth Gefn gael ei ddyrannu'n llawn eleni.
- Mae cyllideb 2023/24 yn cynnwys darpariaeth o £20m, yn benodol ar gyfer chwyddiant. Cynyddwyd hyn yn benodol oherwydd y lefelau o chwyddiant cyffredinol a ragwelwyd ar gyfer 2023/24 a'r cynnydd digynsail ym mhrisiau ynni.
- Mae Olrhain Arbedion wedi cael ei ailgychwyn gyda rhagolwg o gyflawni 70% erbyn diwedd y flwyddyn ar hyn o bryd. Disgwylir i hyn wella.
- Caiff y diffygion gweddilliol eu hariannu gan alldyniad ychwanegol o tua £20m o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.
- Mae'r Cyfrif Refeniw Tai dan fwy o bwysau nag yn ystod y blynyddoedd diwethaf sydd wedi arwain at yr angen i gynyddu cyllidebau refeniw.

## 32 Cwestiynau gan y Cyhoedd

Derbyniwyd nifer o gwestiynau gan y cyhoedd mewn perthynas â Skyline. Aeth yr Arweinydd i'r afael â'r cwestiynau, fodd bynnag, ar 13 Tachwedd cyflwynwyd cais cynllunio ar gyfer Skyline ac o ganlyniad i faterion ffurfiol y broses gynllunio roedd ei allu i wneud sylwadau'n gyfyngedig.

## 33 Diweddariad ar Brosiect Adfywio - Skyline

Roedd y Cynghorydd Robert Francis-Davies, Phil Holmes, Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas a Lee Richards, Arweinydd Tîm Canol y Ddinas yn bresennol i roi'r diweddaraf am ddatblygiad Skyline. Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar y pwyntiau canlynol.

- Mae gan Skyline gwmni yn y DU, *Skyline (Swansea) Limited*, ond mae ei riant-gwmni fwy, *Skyline Enterprises Limited*, yn gweithio fel gwarantwr o dan y brydles arfaethedig.
- Nid oes unrhyw gyfyngiadau arfaethedig ar gyfer mynediad i Fynydd Cilfái.
- Yn hwyrach y mis hwn, fel rhan o'i ddyletswyddau, bydd cyfnod ymgynghori hysbysiad man cyhoeddus agored yn dechrau a chaiff ei hysbysebu maes o law.
- Bydd Skyline bellach yn symud ymlaen gyda'i gais cynllunio ac yn datblygu cam nesaf y cynllun gyda'r nod o ddechrau ar y gwaith ar y safle y flwyddyn nesaf.
- Mae Skyline wedi cynghori bod cost y prosiect wedi cynyddu o £35m i £40m yn bennaf oherwydd chwyddiant.

34 **Cynllun Gwaith**

Nodwyd y cynllun gwaith.

35 **Llythyrau**

36 **Gwahardd y Cyhoedd**

Gwaharddwyd y cyhoedd o'r cyfarfod am y rheswm y byddai'n cynnwys y tebygolrwydd o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i nodir ym Mharagraff 14 Adran 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007.

37 **Diweddariad ar Brosiect Adfywio - Skyline**

38 **Datblygiad Bae Copr (Llafar)**

Daeth y cyfarfod i ben am 11.35am.

**Cadeirydd**